



Nifer y busnesau sydd wedi cofrestru:

10,993



Nifer yr unigolion sydd wedi cofrestru:

22,781

Y Rhwydwaith Arddangos

Gwella perfformiad y fuches sugno ar fferm Bryn

Bydd Fferm Bryn ger Aberteifi yn ymchwilio sut allai monitro a meincodi arwain at wella perfformiad, effeithlonrwydd a phroffidioldeb y fuches. Mae'r brif fenter hyd yma wedi bod yn canolbwyntio ar gynhyrchu gwartheg stôr; ond mae opsiynau i besgi gwartheg ar y fferm drwy reoli'r borfa'n effeithiol.

Meysydd i ganolbwyntio arnynt:

Dangosydd perfformiad allweddol	Presennol	Targed
Nifer y lloï sy'n cael eu diddyfnu fesul 100 o wartheg sy'n cael eu troi at y tarw	85%	>90%
Cynyddu pwysau wrth ddidddyfnu	43% o bwysau'r fuwch wrth ddidddyfnu	50% o bwysau'r fuwch wrth ddidddyfnu

Sut y bydd hyn yn cael ei gyflawni?

Targedu'r defnydd o borthiant a dyfir gartref mewn doganau a ddefnyddir i besgi teirw dan do



Pori bustych a heffrod ar system bori cylchdro



Cynnal profion Johnne i ganfod statws iechyd y fuches



Manteision cadw cofnodion llaeth mewn buches sy'n lloia mewn bloc yn y gwanwyn

Mae Elgan a Gareth Evans ar fferm Llwyn Goronwy ger Llanrwst yn godro 320 o wartheg Holstein wedi'u croesi gyda gwartheg Jersey a Holstein Seland Newydd. Y nod yw canolbwyntio ar ansawdd llaeth a bridio gwartheg sydd â phwysau byw o 550kg, ac yn gallu cynhyrchu 550kg o solidau llaeth fesul llaethiad.

Roedden nhw'n awyddus i gofnodi ond roeddent yn teimlo nad oedd y systemau adrodd presennol yn gweddu i fuches sy'n lloia mewn bloc yn y gwanwyn gan nad yw solidau llaeth yn cael eu cofnodi, er bod 53% o'r llaeth a gynhyrchir yn y DU yn cael ei werthu ar gontract solidau.

Gan weithio gyda Cyswllt Ffermio, maent wedi mewnbwnnu data i'r system gofnodi â llaw, sydd wedi eu galluogi i ganfod y gwartheg yr hoffent eu defnyddio i fridio. Fe wnaethant ganfod rhai gwartheg a oedd yn cynhyrchu 1kg o solidau llaeth fesul kg o bwysau byw, ond ar ben arall y raddfa, roedd y fuwch gyda'r perfformiad gwartheg yn pwysu 700kg ac yn cynhyrchu 0.49kg o solidau llaeth fesul kg o bwysau byw.

"Byddwn ni'n rhoi gwellt biff i'r 25% o'r gwartheg gyda'r perfformiad isaf, ac yn asesu ar ôl sganio'r gwartheg ar ddiwedd y tymor bridio cyn gwneud penderfyniad ynglŷn â pha rai i'w cadw a pha rai i'w gwerthu," meddai Elgan.



Lleihau difrod i wyau ar fferm Wern

Mae safle arddangos dofednod Cyswllt Ffermio, sef fferm Wern, wedi bod yn archwilio sut i leihau nifer yr wyau o ansawdd eilradd sy'n cael eu cynhyrchu, gan ddefnyddio technoleg synwryddion. Roedd yr arbrawf yn monitro faint o bwysau oedd yn cael ei roi ar yr wyau wrth deithio o'r blwch nythu i'r ardal becynnu gan ddefnyddio'r ddyfais CracklessEgg™. Mae'r ddyfais, a ddarparwyd gan Lloyd's Animal Feeds, yn edrych fel wy ac mae'n cynnwys nifer o synwryddion sy'n mesur y grym (G) sy'n effeithio ar yr wy wrth gael ei symud. Mae'r ddyfais yn defnyddio technoleg Bluetooth i gysylltu gydag iPad, gan greu darlenniadau mewn amser real wrth i'r wy deithio ar hyd y belt.



Mae'r lluniau'n dangos y ddyfais CracklessEgg™ yn teithio ar hyd y beltiau.

Os mae 1% o'r wyau a gynhyrchir gan yr haid o ansawdd eilradd, mae hynny'n gyfwerth â £0.66/dwsin wyau. Mae pob iâr yn dodwy 26 dwsin o wyau (312) fesul cylchred. Felly mae 1% o wyau eilradd yn gyfwerth â 17c fesul iâr, sy'n gyfwerth â £5,449.60 fesul haid mewn uned o 32,000 o ieir.

Er mai nifer fechan o wyau eilradd y mae Osian Williams yn eu cynhyrchu, roedd yr arbrawf wedi dangos meysydd lle mae grym sylweddol yn cael ei gynhyrchu a allai gracio'r wyau. Gwnaed addasiadau i'r beltiau i fynd i'r afael â hyn a chafodd rhai o'r beltiau eu harafu.

EIP

6 PROSIECT WEDI CAEL EI GYMERADWYO YN YSTODY CYFNOD

yn gweithio gyda



20 O FFERMWYR A CHOEDWIGWYR



Astudiaeth ddichonolrwydd ar gynhyrchu serennyn yng ngogledd Cymru

Roedd prosiect a ddaeth i ben yn ystod y cyfnod hwn yn edrych ar dyfu cnwd fferyllol newydd. Mae serennyn yn blanhigyn brodorol o ardal y Canoldir ac mae echdynion serennyn yn cael eu defnyddio mewn nifer o feddyginiaethau peswch y gellir eu prynu dros y cownter. Dechreuodd y prosiect ym mis Hydref 2017 a phlannwyd lleiniau arbrofol bychain ar chwe fferm ar draws gogledd Cymru. Roedd y safleoedd yn amrywio o ran uchder a glawiad.

Mae llawer iawn mwy i'w ddysgu ynglŷn ag agronomeg serennyn, ond yn gyffredinol, mae canlyniadau'r biomas a gafodd ei gynaeafu'n dangos bod modd tyfu'r cnwd yng Nghymru.

Safle	Kg a blannwyd	Kg a gynaeafwyd	% cynnydd	Sylwadau
1	14	34	243	
2	15	32	213	
3	14	35	250	
4	15	36	240	
5	14	34	243	
6	15	0	0	Difrod sylweddol o ganlyniad i blâu

Mae dadansoddiad o'r bylbiau wedi dangos lefelau addawol o gyfansoddiad dymunol ac nid oedd uchder na'r math o bridd i'w weld yn effeithio ar lefelau o fewn y prosiect hwn.

Mae angen rhoi ystyriaeth bellach i agronomeg, mecaneiddio, cynaeafu ac echdynnu cyfansoddiad dymunol, ond mae'r ffaith bod y cyfansoddiad dymunol eisoes yn cael eu defnyddio'n eang mewn cynnyrch fferyllol yn addawol iawn ar gyfer y cnwd yma yng Nghymru.

Mae'r bylbiau'n cael eu dinistrio yn ystod y cyfnod prosesu, felly mae'n bwysig creu model cynaliadwy lle mae rhai bylbiau'n cael eu dal yn ôl er mwyn ail-gynhyrchu'r cnwd.


Y bylbiau yw'r costau mwyaf i'r ffermwr, sef oddeutu £25 y kg. Ychydig o wybodaeth sydd ar gael o hyd ynglŷn â chostau cynaeafu a phrosesu gan fod y prosiect wedi cael ei wneud ar raddfa mor fechan.

Canolfan Cyfnewid Gwybodaeth

Cerbydau awyr di-griw (UAV) – Golwg o'r awyr ym maes amaethyddiaeth

Gyda thechnoleg UAV yn dod yn fwy fforddiadwy, a allent ddatblygu i fod yn ddewis ymarferol er mwyn helpu gyda thasgau o ddydd i ddydd ar y fferm? Cliciwch yma i ddarllen mwy.

Teithiau Astudio



Cynhaliwyd 2 daith astudio yn ystod y cyfnod hwn.

Ym mis Ionawr, dewiswyd tri unigolyn o Sir Gâr, Gwynedd a Phowys (**OFC Emerging Leaders Cymru**) gan Gynhadledd Ffermio Rhydychen i gymryd rhan yn y Gynhadledd ar gyfer Arweinwyr y Dyfodol, a luniwyd i ddarparu'r sgiliau, yr hyder a'r rhwydweithiau i fynychwyr allu cyflawni rôl arweiniol o fewn y sector amaeth.

Ar ddiwedd Ionawr, teithiodd **Grŵp Trafod Llaeth Pentagon** i Sir Gaer i ddatblygu perthnasoedd gyda ffermwyr o du allan i'w grŵp eu hunain ac i herio eu harferion ffermio eu hunain. Roedd y daith yn pwysleisio'n bennaf ar gwrrd â ffermwyr a oedd yn llwyddo i gynhyrchu llawer o laeth o ansawdd uchel gyda chostau bwydo isel, gan ddefnyddio porthiant o ansawdd uchel, a dyfwyd gartref.

Y Gwasanaeth Cyngori

Nifer y busnesau sydd wedi derbyn cefnogaeth yng Nghategori Busnes y Gwasanaeth Cyngori yn ystod y cyfnod:



Mae 104 unigolyn wedi derbyn cefnogaeth un i un dan y Categori Busnes o fewn y Gwasanaeth Cyngori yn ystod y cyfnod hwn.



Mae 3 grŵp wedi derbyn cefnogaeth dan y Categori Busnes o fewn y Gwasanaeth Cyngori yn ystod y cyfnod hwn.

Adborth gan fusnesau yn ymwneud â darpariaeth y cyngor a gafwyd:

"Mae wedi ein helpu i ddatblygu gwell dealltwriaeth o'r broses gynllunio ac mae wedi ein cynorthwyo i lunio cynllun pendant gydag arweiniad wrth law pan fo'r angen."

Gweithdai Datblygiad Personol

CAFODD **313** O GYNLLUNIAU DATBLYGU PERSONOL EU CREU YN YSTOD Y CYFNOD



Mae'r gweithdai hyn yn rhoi cyfle i fusnesau fanteisio'n llawn ar y gefnogaeth a'r arweiniad a roddir gan staff Cyswllt Ffermio i'w cynorthwyo i greu eu cynlluniau datblygu personol (PDP) ac unrhyw geisiadau am sgiliau a nodir yn y PDP.

Rhaglen Fentora

491 O FENTAI WEDI CAEL EU MENTORA **15** MENTAI NEWYDD YN YSTOD Y CYFNOD

Y pynciau mwyaf poblogaidd a ymgeisiwyd ar eu cyfer yn ystod y cyfnod oedd:

MAGU LLOI	YNNI ADNEWYDDADWY
FFERMIO GOFAL	CYNHYRCHU LLAETH ORGANIG

Grwpiau Trafod



Astudiaeth Achos

Bu David Thomas (Andersons Consultancy) yn hwyluso cyfarfod gydag aelodau Grŵp Trafod ar Gostau Heffrod Cyfnewid.

Cyn y cyfarfod, gofynnwyd i bob busnes gwblhau taflen ddata. Nid oedd yr un aelod o'r grŵp wedi cyfrifo'r costau hyn o'r blaen, felly roedd yn ddiddorol gweld eu hymateb a'u diddordeb yn y pwnc.

Roedd y pynciau trafod yn cynnwys:

- yr ystod o fewn y grŵp
- costau anafiadau a'r effaith ar gostau cyfnewid a'r busnes
- sut i leihau'r bwch ariannol rhwng costau prynu a gwerthu gwartheg i'w difa
- sut i gynnal elw gyda chyfradd gyflenwi o 20-30%
- sut gall cyfradd cyfnewid is na 10% arwain at fuches sy'n heneiddio, mwy o anafiadau ac ansawdd is
- sut i gynyddu nifer y gwartheg i bob tarw
- sut i sicrhau cynrychiolaeth wirioneddol drwy gymharu cyfraddau cyfnewid dros nifer o flynyddoedd

Dyma rai o'r pwyntiau allweddol y bydd ffermwyr yn eu gweithredu'n dilyn yr ymarfer cyfrifo:


- Gwaredu clefyd Johnne o'r fuches
- Ceisio gwella cyflwr gwartheg i'w difa cyn eu gwerthu
- Cyfnewid gwartheg ynghynt yn hytrach na gadael iddynt fynd yn rhy hen
- Sicrhau bod gwartheg pedigri yn gwerthu am bris uchel i dalu am gostau cyfnewid
- Canolbwyntio ar leihau nifer yr anafiadau ymysg gwartheg

Gweler data'r grŵp isod:

Grŵp Trafod Gwartheg Sugno Aberhonddu	Costau Anifeiliaid Cyfnewid yn y Fuches							Cyfartaledd
Rhif y fferm	1	2	3	4	5	6	7	
Costau gwartheg cyfnewid £/buwch yn y fuches	108	115	68	132	230	14	97	109.1
Costau teirw cyfnewid £/tarw yn y fuches	8	0	0	21	9	10	50	14.0
Cyfanswm costau anifeiliaid cyfnewid £/ buwch yn y fuches	116	115	68	153	239	24	146	123.0
Prynant/trafodion fesul £/buwch	1,200	1,580	1,399	1,200	2,200	9,000	1,500	1,415.3
Pris Difa £	800	1,151	858	610	1,200	754	1,016	912.7
Cyfradd Cyfnewid yn y Fuches	18.9	19.0	14.7	17.0	20.4	9.5	20.0	17.1
Marwoldeb Gwartheg	1.35	4.76	0	3.77	3.08	0	0	1.9

Yr Academi Amaeth

DERBYNIWYD **51** CAIS AR GYFER ACADEMI AMAETH 2020



Digwyddiadau Ymwybyddiaeth Strategol

Cynhaliwyd 17 Digwyddiad Ymwybyddiaeth Strategol yn ystod y cyfnod:

Paratoi ar gyfer wyna

Cynhaliwyd tri chyfarfod ledled Cymru dan arweiniad yr arbenigwr defaid, John Vipond. Roedd y digwyddiadau'n canolbwyntio ar y 5 peth canlynol:

- 1) Maeth y famog
- 2) Lleihau colledion wyna
- 3) Rheoli mamogiaid mewn gwahanol gyflwr
- 4) Gwneud y defnydd gorau o adnoddau a dyfir gartref
- 5) Sicrhau gwell canlyniadau wrth wyna

Fforymau Ffermwyr Tenant

Cynhaliwyd dau ddigwyddiad yn Sir Benfro gyda George Dunn, Prif Weithredwr y Gymdeithas Ffermwyr Tenant, a fu'n amlygu'r prif newidiadau sydd ar y gweill ar gyfer ffermwyr tenant. Roedd y digwyddiadau'n canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

- 1) Gwahanol sicrwydd tenantiaeth o flwyddyn i flwyddyn
- 2) Rhent wedi'i reoleiddio
- 3) Cytundebau tymor penodol
- 4) Rhenti ar y farchnad agored
- 5) Cymalau amaethyddiaeth yn unig
- 6) Hawliau'r landlord.

Cynigiwyd cymorthfeydd dilynol i bob mynychwr ar bwnc tenantiaeth fferm gyda George.

Agrigôp

Gan weithio gyda'i gilydd fel grŵp, gall aelodau Agrigôp ddysgu sgiliau rheolaeth newydd, cael mynediad at gyngor arbenigol ac archwilio a datblygu dyfodol hyfwr ar eu cyfer eu hunain, eu teuluoedd a'u busnesau.


67 GRŴP GWEITHREDOL gyda 548 AELOD wedi mynychu cyfanswm o 61 O GYFARFODYDD YN YSTOD Y CYFNOD

Sioeau Amaethyddol	Defnyddio'r Cyfryngau Cymdeithasol
Lleihau Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr	Marchnata cynnyrch cig
Hyfforddi Cŵn Defaid	Ansawdd dŵr

Mentor

582 O DDATGANIADAU O DDIDDORDEB WEDI CAEL EU CYFLWYNO ERS DECHRAU RHAGLEN

232 O GYFRANOGWYR GWEITHREDOL



49,216 ERW O DIR YN RHAN O'R RHAGLEN

Cymorthfeydd


CYNHALIUYD 12 CYMHORTHFA gyda 61 O FNYCHWYR

Cynhaliwyd 4 math gwahanol o gymorthfeydd yn ystod y cyfnod hwn:

Marchnata ac Arallgyfeirio	Ffermwyr Tenant
Adolygiadau Busnes	Cynllunio

Mae'r siart yn dangos y busnesau a fynychodd bob un o'r cymorthfeydd yn ôl eu sectorau busnes

■ Biff ■ Llaeth ■ Defaid/Geifr ■ Tir Âr ■ Moch
■ Dofednod ■ Garddwriaeth ■ Porthiant



Adborth a dderbyniwyd yn dilyn y cymorthfeydd Marchnata ac Arallgyfeirio a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod:

"Roedd y gymhorthfa hon yn gyfle da ddatblygu syniad."

"Mae'r gymhorthfa wedi fy nghynorthwyo i ddysgu sut i ddechrau a datblygu ein busnes o'r syniad cychwynnol i gynllun gweithredu."

"Wedi fy nghynorthwyo i feddwl am sector i'w dargedu, beth sydd angen i mi ei wneud nesaf a phwysigrwydd sicrhau bod y cynnyrch gorffenedig yn iawn."

E-ddysgu

Mae rhai o'r cyrsiau e-ddysgu a gwblhawyd yn ystod y cyfnod yn cynnwys:

ADNODDAU DYNOL AR Y FFERM




MEINCNODI FFERM



CYNLLUNIO A CHYLLID



TAW – GWNEUD TRETHYN DDIGIDOL



Cliciwch yma i fynd i'r wefan.

Cyrsiau Hyfforddiant

Enw'r cwrs	Nifer a gwblhaodd y cwrs yn ystod y cyfnod
Cynllunio a Datblygu Busnes	36
Marchnata eich Busnes	31
Cadw Llyfrau	29
Deall eich Cyfrifon a'ch Datganiadau Ariannol	8
Cofnodion Ariannol a TAW	6

Rhaglen TGCh

LEFEL 1	LEFEL 2	LEFEL 3
Cwrs hyfforddiant 6 wythnos = 45 o unigolion wedi derbyn hyfforddiant	Sesiynau hyfforddi un i un = 133 o unigolion wedi derbyn hyfforddiant	Workshops = 722 o fynychwyr

Roedd themâu'r gweithdai'n cynnwys:

- Creu gwefan
- Cyfleuster Cadw Cofnodion Fferm WLBP
- Moocall – defnyddio technoleg i synhwyro pan fo buwch yn gofyn tarw neu'n barod i ddod â llo

